# Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Monitro Annibynnol

# yng Ngharchardai Brynbuga a Phrescoed EF

## Ar gyfer blwyddyn adrodd
## 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022

**Cyhoeddwyd Medi 2022**

# Cynnwys


| Adrannau rhagarweiniol 1 – 3 | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1. | Rôl statudol y Bwrdd Monitro Annibynnol | 3 |
| 2. | Disgrifiad o'r sefydliad | 4 |
| 3. | Crynodeb gweithredol | 6 |
| **Adrannau tystiolaeth 4 – 7** | | |
| 4. | Diogelwch | 10 |
| 5. | Triniaeth deg a dyngarol | 13 |
| 6. | Iechyd a lles | 17 |
| 7. | Cynnydd ac ailsefydlu | 20 |
| **Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol** | | 23 |
| **Ceisiadau i'r BMA** | | 24 |
| **Geirfa** | | 26 |

# Adrannau rhagarweiniol 1 – 3

## 1. Rôl statudol y Bwrdd Monitro Annibynnol (BMA)

Mae Deddf Carchardai 1952 yn mynnu bod pob carchar yn cael ei fonitro gan Fwrdd annibynnol, wedi'i benodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol, o blith aelodau o'r gymuned lle mae'r carchar wedi'i leoli.

O dan y Fframwaith Monitro Cenedlaethol y cytunwyd arno gyda gweinidogion, mae'n ofynnol i'r Bwrdd wneud y canlynol:

- bodloni ei hun bod y rhai yn nalfa'r carchar yn cael eu trin yn ddyngarol ac yn gyfiawn, a bod y rhaglenni sy'n eu paratoi ar gyfer cael eu rhyddhau yn amrywiol ac yn ddigonol
- rhoi gwybod yn brydlon i'r Ysgrifennydd Gwladol, neu i unrhyw swyddog y mae awdurdod wedi'i ddirprwyo iddo fel y mae'n ei ystyried yn briodol, am unrhyw bryder sydd ganddo
- cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ba mor dda y mae'r carchar wedi bodloni'r safonau a'r gofynion a osodwyd arno, a pha effaith mae'r rhain yn eu cael ar y rhai yn ei ddalfa.

I alluogi'r Bwrdd i gyflawni'r dyletswyddau hyn yn effeithiol, mae gan ei aelodau hawl mynediad at bob carcharor a phob rhan o'r carchar, ac at gofnodion y carchar.

Mae'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn yn erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosb arall Greulon, Annynol neu Ddiraddiol (OPCAT) yn gytuniad hawliau dynol rhyngwladol sydd wedi'i lunio i gryfhau gwarchodaeth i bobl sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid. Mae'r protocol yn cydnabod bod pobl o'r fath yn arbennig o agored i niwed ac yn ceisio eu hatal rhag cael eu trin yn wael drwy sefydlu system o ymweliadau neu arolygon ar gyfer pob dalfa. Mae OPCAT yn mynnu bod Gwladwriaethau'n dynodi Mecanwaith Atal Cenedlaethol i gynnal ymweliadau â mannau sy'n cadw pobl yn gaeth, i fonitro'r driniaeth a'r amodau ar gyfer ceiswyr lloches ac i wneud argymhellion i atal pobl rhag cael eu trin yn wael. Mae'r Bwrdd Monitro Annibynnol yn rhan o Fecanweithiau Atal Cenedlaethol y Deyrnas Unedig.

## 2. Disgrifiad o’r sefydliad

2.1 Mae Carchardai Brynbuga a Phrescoed EF yn cynnwys dau garchar o amgylch tref Brynbuga (de-ddwyrain Cymru). Cânt eu rheoli gan un Llywodraethwr a gefnogir gan uwch dîm rheoli (UDRh).

- Mae Carchar Brynbuga EF yn garchar categori C.
- Mae Carchar Prescoed EF yn garchar agored categori D.
- Mae Canolfan Hyfforddi Fferm Cilwrgi yn galluogi carcharorion o garchar Prescoed i weithio a derbyn hyfforddiant mewn amaethyddiaeth, gweithredu peiriannau fferm a gweithio mewn warws.
- Yn gyffredin â gweddill yr ystâd carchardai, gweithredodd Carchardai Brynbuga a Phrescoed EF yn ôl trefn cam 4 cyfyngiadau symud yn ystod y rhan fwyaf o'r cyfnod adrodd hwn (RP) oherwydd pandemig Covid-19.

Cefnogir carcharorion gan:

- Y tîm adsefydlu rheoli troseddwyr yn y ddalfa (OMiC). Mae gwaith allweddol yn weithredol yng Ngharchar Brynbuga ond gan fod Carchar Prescoed EF yn garchar agored, nid yw'n weithredol yno.
- Tîm ailsefydlu a gweithwyr achos cysylltiedig.
- Y darparwr iechyd – Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.
- Yr adran seicoleg.
- Tîm camddefnyddio sylweddau a ddarperir gan Dyfodol. Gwasanaeth camddefnyddio sylweddau carchardai yw hwn, a ariennir gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS).
- Y gaplaniaeth.
- Adran gofal iechyd sy'n darparu cyfleuster gofal dydd ym Mrynbuga a Phrescoed.
- Llyfrgelloedd a champfeydd yn y ddau garchar.

2.2 Agorodd Carchar Brynbuga EF am y tro cyntaf ym 1844. Wedi'i leoli yn y dref, mae ei dair prif adain yn lledaenu allan o bwynt rheoli canolog. Mae'r rhain bellach yn gartref i garcharorion agored i niwed, y mwyafrif yn ddynion a gafwyd yn euog o droseddau rhyw (MCOSO), ac mae tua 48% ohonynt dros 50 oed. Yn ystod y rhan fwyaf o gyfnod adrodd 2021-22, gostyngwyd y cynhwysedd gweithredol (OpCap) i gyfartaledd o 220 o gymharu â’r safon o 278.

Mewn amgylchiadau arferol gall dynion sy'n gymwys i gael statws uwch o dan y cynllun cymhellion wneud cais i fyw yn adain Comber, sy'n uned ar wahân ar ffurf hundy. Yn ystod pandemig Covid-19 mae'r ardal hon wedi'i defnyddio fel adain ynysu.

Bwriad y drefn yw paratoi carcharorion ar gyfer eu rhyddhau'n ddiogel a lleihau'r risg o aildroseddu:

- Roedd y rhaglen driniaeth troseddwyr rhyw ar gael i bob carcharor nes iddi gael ei therfynu'n genedlaethol ym mis Mawrth 2017. Mae rhaglenni Horizon a Kaizen wedi'i disodli.

- Ceir adran addysg a gweithdai gwaith coed, gosod brics a phlastro.
- Yr amcanion yw dal carcharorion yn saff a diogel, a darparu sefydliad trefnus, lle mae carcharorion yn cael eu trin yn ddyngarol a chyda gwedduster a pharch.

2.3 Mae Carchar Prescoed EF dair milltir y tu allan i dref Brynbuga, ar safle sefydliad troseddwyr ifanc a agorodd ym 1939. Ers 1993 mae wedi gweithredu fel sefydliad adsefydlu agored ar gyfer oedolion preswyl gwrywaidd categori D.

Am y rhan fwyaf o gyfnod adrodd 2021-22 mae'r OpCap wedi bod ar lefelau is. Galluogodd hyn gynnydd mewn deiliadaeth sengl fel rhan o'r ymateb i'r pandemig. Yn flaenorol roedd yr OpCap yn 260; yn ystod cyfnod adrodd 2021-22, y cyfartaledd oedd 210.

Mae gan Prescoed 11 o flociau llety ar wahân sy'n gartref i tua 20 o drigolion yr un. Yn ystod y cyfnod adrodd ychwanegwyd 40 o gabanau deiliadaeth sengl ac maent wedi'u hintegreiddio ac yn gweithio'n dda.

Cynlluniwyd y gyfundrefn i adsefydlu ac addysgu trwy gynlluniau dedfrydu ac ailsefydlu, ac i leihau'r risg y bydd carcharorion yn aildroseddu wrth iddynt ddychwelyd i'w cymunedau. Fel arfer mae cyfleoedd ar gael ar gyfer addysg, hyfforddiant, a lleoliadau gwaith, gydag adnoddau wedi'u neilltuo ar gyfer ailsefydlu carcharorion. Mae'r gyfundrefn yng ngharchar Prescoed yn cynnwys amrywiaeth o ddiwydiannau a gweithgareddau. Mae'r Bwrdd yn nodi, er gwaethaf cyfyngiadau Covid-19, fod y carchar wedi bod yn llwyddiannus wrth gynnal nifer ac amrywiaeth y lleoliadau gwaith cyflogedig. (Gweler adran 7.2.)

## 3. Crynodeb gweithredol

### 3.1 Cefndir i'r adroddiad

3.1.1 Parhaodd pandemig Covid-19 i gyfyngu ar allu'r Bwrdd i ymchwilio i gynnwys yr adroddiad hwn, sy'n cyflwyno ein canfyddiadau ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022. Collodd y Bwrdd aelodau oherwydd ymddeoliad a chwtogwyd ei ymweliadau corfforol gan y cyfyngiadau symud ond llwyddodd i gwmpasu'r elfennau allweddol er bod llai o dystiolaeth ategol nag arfer. Mae gweinidogion yn ymwybodol o'r cyfyngiadau hyn ond er gwaethaf hyn:

- Llwyddodd y Bwrdd i gynnal rhai ymweliadau yn ystod cyfnodau gwahanol y cyfyngiadau symud.
- Roedd cyswllt â charcharorion yn cael ei ategu gan:
  - cyswllt ffôn â staff
  - presenoldeb o bell mewn cyfarfodydd rheoli carchardai
  - lefelau uwch o ddata ac adborth gan yr uwch dîm rheoli (UDRh)
- Hoffai'r Bwrdd gofnodi'r cydweithrediad a gafodd gan y carcharorion, y staff, a'r UDRh wrth gasglu gwybodaeth ar gyfer yr adroddiad hwn.

Yn sgil hyn mae'r Bwrdd:

- Wedi cyfuno profiad blaenorol yn y ddau garchar gyda'r monitro ffisegol a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn.
- Wedi deillio ystyr o'r data y mae ef ac eraill wedi'i gasglu.
- Yn ystyried ei gasgliadau yn ddilys gan ei fod wedi dehongli darlun realistig. (Gweler adran 8.1 am ddisgrifiad o fonitro yn ystod y cyfyngiadau symud.)

3.1.3 Yn ogystal â hyn mae gwybodaeth reolaidd yn cael ei chasglu am ymateb HMPPS i'r pandemig, ac mae hwnnw'n cael ei goladu'n genedlaethol.

3.1.4 Yn yr adroddiad hwn, mae'r Bwrdd wedi defnyddio ymadroddion fel 'yn gyffredinol' ac 'yn bennaf'. Bwriad hyn yw dangos darlun realistig o'r carchar lle gall pethau fynd o'i le - ni fyddai'n ddefnyddiol awgrymu y gallai unrhyw garchar gael popeth yn iawn drwy'r amser. Mae'r Bwrdd yn gwerthfawrogi bod y cywiriad hwn yn wir am bob sefydliad, adran, corff ac unigolyn**.**

3.1.5 Mae'r Bwrdd o'r farn bod Carchardai Brynbuga a Phrescoed EF yn garchardai effeithiol sy'n cael eu rhedeg yn dda, yn dilyn y cysyniad o adolygiad tryloyw a gwelliant parhaus. Cefnogir ein barn gan adroddiadau cyrff eraill sy'n monitro neu'n arolygu'r carchardai hyn. Mae'r rhain yn cynnwys Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi (HMIP) ac adolygiadau Cyfarwyddwr Grŵp Carchardai Cymru. (Gweler adran 8.1.)

3.1.6 Yn 2020 dyfarnwyd gwobr Amgylcheddau sy'n Galluogi Canolfan Gwella Ansawdd y Coleg (CCQI) i'r carchar, ac mae'r safon hon wedi parhau. Fe'i dyfernir gan Goleg Brenhinol y Seiciatryddion. Gweler yr eirfa yn adran 8 am esboniad o ystyr hyn.

### 3.2 Prif ddyfarniadau

### Pa mor ddiogel yw'r carchar?

3.2.1 Mae’r Bwrdd o’r farn bod Brynbuga a Phrescoed yn garchardai diogel sy’n gweld lefelau isel o drais, bwlio a hunan-niweidio. Dywed y rhan fwyaf o ddynion eu bod yn teimlo'n ddiogel. (Gweler hefyd adran 4.5)

3.2.2 Mae’r carchar yn parhau i fod â strategaeth gadarn i ymateb i Covid-19. Mae carcharorion sy’n agored i niwed yn glinigol wedi cael eu gwarchod ac roedd ei ddynion ymhlith y cynharaf (yn yr ystâd carchardai) i gael eu brechu ddwywaith.

### Pa mor deg a dyngarol y mae carcharorion yn cael eu trin?

3.2.3 Oherwydd Covid-19, mae elfennau diogelwch, tegwch ac iechyd wedi cydblethu yn fwy nag arfer. Mae’r Bwrdd o’r farn bod y carchar wedi bod yn llwyddiannus yn y ffordd y mae wedi parhau i reoli’r pandemig. Er gwaethaf y cyfyngiadau symud, llwyddodd y Llywodraethwr blaenorol i flaenoriaethu rheoli risg yn hytrach nag osgoi yn unig ac mae'r Llywodraethwr newydd wedi parhau â'r arfer hwn. Yn ddiamau, mae dynion wedi talu pris uchel am eu diogelwch, ond nid yw'r mwyafrif wedi gweld gweithredu'r cloi fel rhywbeth sy'n peryglu tegwch. Roedd y carchar yn un o'r rhai cyntaf i gael symud i gam 2, a thrwy hynny gynyddu'r amser y tu allan i'r gell, ac mae'r egwyddor bwysig hon wedi parhau yn dilyn cyfnodau cloi pellach.

### Pa mor dda mae anghenion iechyd a lles carcharorion yn cael eu diwallu?

3.2.4 Mae’r Bwrdd o’r farn bod y carchar wedi ymdopi’n dda â’r cyfyngiadau a osodwyd gan y pandemig a’i fod wedi darparu gofal iechyd tebyg i’r hyn sydd ar gael yn y gymuned. Mae carcharorion yn mynegi’r farn yn rheolaidd bod eu hanghenion iechyd yn cael eu diwallu’n dda.

### Pa mor dda yw cynnydd carcharorion tuag at adsefydlu llwyddiannus?

3.2.5 Er gwaethaf cyfyngiadau Covid-19 yn ystod y cyfnod adrodd, parhaodd y carchar i hwyluso ailsefydlu (gweler adran 7.5) ac roedd dynion o Garchar Prescoed yn gallu parhau â’u lleoliadau oddi ar y safle drwy gydol y cyfnod. Yn ystod y pandemig mae’r carchar wedi parhau i weithio gyda’r Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carchardai (Pact: gweler adran 8.2) i sicrhau bod cymorth ar gael i ddynion a’u teuluoedd yn ystod cyfyngiadau Covid-19.

## 3.3 Prif feysydd i'w datblygu

***I WEINIDOG DROS GARCHARDAI’R DU***

3.3.1. Mae addysg yn elfen allweddol o wella adsefydlu carcharorion. Ar ôl rhoi cyfrif am ddyfarniadau cyflog staff (gorfodol dros y blynyddoedd diwethaf) mae’r Bwrdd yn pryderu bod gostyngiad effeithiol wedi bod yn y cyllid y mae’r adran addysg yn ei dderbyn ac y gallai hyn gael effaith negyddol ar ganlyniadau carcharorion.

Mae'r Bwrdd yn falch o nodi'r gostyngiad sylweddol yn nifer y dynion sy'n cyflawni dedfrydau amhenodol er mwyn diogelu'r cyhoedd (dedfrydau IPP) yng Ngharchar Brynbuga a Phrescoed. Fodd bynnag, mae'r rhai sy'n weddill (llawer yn sylweddol dros gyfnod eu tariff) yn ymwybodol eu bod yn cyflawni dedfryd a ddiddymwyd, a ddisgrifiwyd gan Farnwr Goruchaf Lys blaenorol fel 'staen ar ein system cyfiawnder troseddol'. Mae sawl un yn disgrifio'r problemau iechyd meddwl a achosir gan yr hyn y maent yn ei weld fel anobaith eu sefyllfa. Ymunwn â Byrddau eraill i ofyn i'r gweinidog gyflymu'r adolygiadau o garcharorion sy'n cyflawni dedfrydau IPP.

### *I WEINIDOG IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL CYMRU*

Yn anffodus, yn ystod mis Mai 2022 bu farw un o'r nyrsys iechyd meddwl, aelod gwerthfawr o'r staff. Yn ogystal â chael ei golli'n fawr am y sgil a'r gwahaniaeth a wnaeth i'r dynion, mae'r tîm wedi'i adael heb ddigon o staff ac mae angen apwyntiad arall ar frys.

### *I'R GWASANAETH CARCHAR*

Mae'r Bwrdd yn pryderu y gallai nifer y swyddogion prawf fod yn annigonol. Deallwn fod y nifer o uwch swyddogion prawf ar hyn o bryd yn un pan fyddai angen pedwar i wneud y gwaith dan sylw. (Gweler adran 7.3.1.)

### *I'R LLYWODRAETHWR*

3.3.4 Gan gyfeirio at ein sylwadau yn y crynodeb gweithredol 3.1.5, 3.2.1, 3.2.2 a 3.2.3, nid oes gennym lawer i'w ychwanegu yma heblaw gofyn i'r tîm barhau â'u hymdrechion i wella mynediad ffôn i ddynion ym Mrynbuga. Mae'r Llywodraethwr wedi cynhyrchu a dosbarthu ei gynllun sefydlu; roedd yn cynnwys y datganiad canlynol:

*'Meddyliwch i'r diwedd. Beth bynnag a wnewch, meddyliwch am y canlyniad eithaf. Meddyliwch am sut rydyn ni'n trin ein gilydd a'r rhai rydyn ni'n eu cadw yn y ddalfa. Meddyliwch am awdurdod cyfreithlon a gwneud y peth iawn. Peidiwch byth â diystyru'r effaith, er da neu er drwg, y gallwch ei chael ar fod dynol arall.'*

Nid oes gan y Bwrdd ddim i'w ychwanegu at hynny.

## 3.4 Cynnydd ers yr adroddiad diwethaf

3.4.1 Mae Carchardai Brynbuga a Phrescoed EF wedi gweithredu o dan gyfundrefnau Covid-ddiogel annodweddiadol drwy gydol y cyfnod adrodd, gan wneud cymariaethau â blynyddoedd cynharach yn annefnyddiol; ond mae'r Bwrdd wedi nodi'r lefel drawiadol a chynhyrchiol o gydweithio rhwng staff a dynion. Mae cynnydd arall yn cynnwys:

- Enillodd Carchar Brynbuga EF y cymhwyster Amgylcheddau sy'n Galluogi. (Gweler 5.4.)
- Cynhaliodd rheolwyr preswyl yng ngharchar Prescoed sesiynau diweddaru a holi ac ateb rheolaidd i roi gwybod i ddynion am yr hyn oedd yn digwydd yn ystod cyfyngiadau symud Covid-19.

- Sicrhawyd buddsoddiad gan yr UDRh i wella ffabrig y ddau garchar. Mae hyn wedi caniatáu adnewyddu rhai o'r toiledau a'r cawodydd ym Mrynbuga. Mae'r rhaglen o ddiweddariadau celloedd wedi mynd rhagddi gyda'r rheini yn adain A yn cael eu cwblhau yn ystod y Cyfnod Adrodd.
- Mae'r gwaith o ddatgomisiynu ac ailosod yr uned Lester anfoddhaol yng Ngharchar Prescoed wedi dechrau gydag ychwanegu 40 o unedau llety Bunkabin yng Ngharchar Prescoed. Mae'r rhain wedi gweithio'n dda ac wedi galluogi'r carchar i gynnig mwy o lety unigol yn ystod y pandemig. Defnyddiwyd ugain o'r rhain ar gyfer gweithwyr allanol cam 2 a daeth yr 20 arall yn uned ynysu amddiffynnol (PIU). Byddai'n dda pe bai'r carchar yn cael cadw'r unedau hyn yn barhaol. (Gweler adran 5.1.)
- Roedd Carchar Brynbuga EF yn arloesol o ran sicrhau'r amser mwyaf posibl o ymarfer corff i'r dynion. Er enghraifft, rhannwyd y maes chwaraeon yn ardaloedd er mwyn caniatáu grwpiau cerdded, cylchedau grŵp a sesiynau pwysau ac, yn dibynnu ar y tywydd, cynhaliwyd pum sesiwn y dydd.
- I hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yng ngharchar Prescoed cynhaliwyd digwyddiadau 'Dewch i Siarad' ar hil ac anabledd. Cynhaliwyd digwyddiadau i ddathlu Mis Hanes Pobl Ddu a Mis Hanes Merched ar gyfer staff a charcharorion.
- Mae lefel y cydweithrediad ac ymddiriedaeth rhwng dynion a swyddogion sydd ei angen i gynnal cyfnod cloi hirfaith yn sylweddol. Mae'r ffaith bod hyn wedi'i gyflawni mewn ysbryd cadarnhaol yn nodedig.

3.4.2 Mae cynhwysedd gweithredol Carchar Prescoed EF wedi cynyddu o 20 i 25 sydd wedi galluogi mwy o garcharorion lleol i fyw yno.

# Adrannau tystiolaeth 4 – 7

## 4. Diogelwch


### 4.1. Derbyn a sefydlu


Mae'r cyfrifoldeb am dderbyn a sefydlu bellach wedi'i gymryd drosodd gan y swyddogaeth breswyl yng Ngharchar Brynbuga. Mae hyn wedi cynorthwyo dilyniant. Mae dau garcharor yn gweithio gyda'r dderbynfa i ddarparu cymorth ac yn ystod y pandemig roedd carfan o chwith yn orfodol am bythefnos. Mae'r tîm carchar mwy diogel wedi cyflwyno pecyn i gefnogi a hysbysu'r dynion. Rhoddir cardiau adnabod printiedig a chortynnau gwddf i bob carcharor wrth gyrraedd ac mae llyfryn sefydlu wedi'i gwblhau mewn cydweithrediad â charcharorion. Ym mis Ionawr, roedd rhestr cyfleusterau newydd ar gael i bawb, wedi'i chynhyrchu ar y cyd â chyngor y carcharorion. Mae'n ofynnol i garcharorion Prescoed fod â charfan o chwith am bythefnos yn y sefydliad anfon. Cyn dod allan o gludiant yng ngharchar Prescoed, mae dogfennau'n cael eu gwirio i gadarnhau statws categori D, ac wedi hynny mae carcharorion yn symud i'r dderbynfa ar gyfer gwiriadau lles, yn cynnal prawf llif ochrol ac yn gwirio eiddo ac yna'n ymweld â gofal iechyd. Gwneir gwiriadau ynghylch gwendidau gan gynnwys materion iechyd meddwl. Rhoddir sgwrs hanner awr yn hysbysu carcharorion o ddisgwyliadau a phryd y maent yn debygol o weld eu rheolwr troseddwyr carchar (POM). Mae swyddog sefydlu carcharorion yn annerch y carcharorion i'w helpu i ymgartrefu ac yn gyffredinol mae'n ymddangos bod hyn yn gweithio.

### 4.2. Hunanladdiad a hunan-niweidio, marwolaethau yn y ddalfa

Roedd y Bwrdd wedi disgwyl cynnydd yn nifer yr asesiadau, dogfennau gofal yn y ddalfa a gwaith tîm (ACCT) a hunan-niweidio yn ystod cyfyngiadau symud Covid-19; mewn gwirionedd – gweler y graffiau isod – mae’r niferoedd wedi gostwng. Yn ystod y 12 mis diwethaf agorwyd 43 ACCT ym Mrynbuga. Agorwyd un ACCT yng ngharchar Prescoed.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, adroddwyd am gyfanswm o 13 digwyddiad o hunan-niwed.




| | Brynbuga 2021-22 | | | Prescoed 2021-22 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | ACCTau | Gweithredoedd o hunan-niweidio | Cwynion | ACCTau | Gweithredoedd o hunan-niweidio | Cwynion |
| Eb-21 | 4 | 2 | 33 | 0 | 0 | 2 |
| Mai-21 | 6 | 0 | 43 | 0 | 0 | 4 |
| Meh-21 | 3 | 1 | 37 | 0 | 0 | 13 |
| Go-21 | 4 | 1 | 43 | 0 | 0 | 7 |
| Aw-21 | 3 | 0 | 47 | 0 | 0 | 6 |
| Med-21 | 4 | 1 | 27 | 0 | 0 | 7 |
| Hy-21 | 4 | 2 | 32 | 0 | 0 | 4 |
| Ta-21 | 2 | 2 | 32 | 0 | 0 | 5 |
| Rha-21 | 4 | 0 | 21 | 0 | 0 | 6 |
| Ion-22 | 4 | 2 | 41 | 0 | 0 | 4 |
| Chw-22 | 1 | 0 | 34 | 0 | 0 | 7 |
| Ma-22 | 4 | 1 | 19 | 1 | 1 | 9 |
| **Totals** | **43** | **12** | **409** | **1** | **1** | **74** |

4.2.1 Mae gwrandawyr yn cael eu cefnogi gan y Samariaid a rheolwyr achosion carchar mwy diogel. Mae wyth o Wrandawyr yng ngharchar Brynbuga a saith yng ngharchar Prescoed. Mae ein sgyrsiau gyda'r dynion yn awgrymu bod y gwasanaethau hyn yn ddefnyddiol ac yn cael eu gwerthfawrogi. Yn ystod Covid-19 mae Gwrandawyr yng Ngharchar Brynbuga wedi bod yn recordio 'stopio a sgwrsio' i gynorthwyo carcharorion gyda phroblemau amrywiol. Parhaodd aelodau'r BMA i gael cyfarfodydd anffurfiol gyda nhw i gael eu barn am faterion parhaus o fewn y sefydliadau. Roedd eu barn yn cyfateb i'r rhai a roddwyd gennym uchod.

4.2.2 Yn ystod y cyfnod hwn ni fu unrhyw farwolaethau yn y ddalfa. Fodd bynnag, ar 5 Ionawr 2022 cyhoeddodd y crwner adroddiad Rheoliad 28 ynghylch marwolaeth ym mis Medi 2019. Y cais oedd bod y carchar yn cadarnhau'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r risgiau a berir gan garcharorion yng Ngharchar Brynbuga yn masnachu meddyginiaeth ar bresgripsiwn. Anfonwyd ymateb ar 28 Chwefror 2022 gan Gyfarwyddwr Cyffredinol y Gwasanaeth Prawf, Cymru ac Ieuenctid, HMPPS.

### 4.3 Trais a lleihau trais, hunan-ynysu

4.3.1 Yng Ngharchar Brynbuga mae ymosodiadau yn parhau i fod yn isel, ond cofnodwyd tri ar staff a deg ar garcharorion yn ystod y cyfnod adrodd. Ni fu unrhyw ymosodiadau ar staff na dynion yng ngharchar Prescoed. Mae lefelau bwlio yn parhau'n isel ac mae'r rhan fwyaf o garcharorion yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel. Mae hyn yn cefnogi'r argraff a gafodd aelodau yn ystod ein hymweliadau rota rheolaidd.

4.3.2 Mae cyflwyno llywodraethwr diogelwch penodol wedi galluogi mwy o adnoddau ar gyfer carchar mwy diogel.

Yn ystod y cyfnod adrodd, gwnaed 58 o atgyfeiriadau ar gyfer cynlluniau herio, cymorth ac ymyrryd (CSIPs) ym Mrynbuga, gydag 16 yn mynd rhagddynt. Yng ngharchar Prescoed gwnaed naw atgyfeiriad CSIP, gyda phedwar yn mynd rhagddynt.

### 4.5 Defnydd o rym

Mae'r defnydd o rym yn brin ac nid yw PAVA, y chwistrell sy'n analluo, wedi'i ddefnyddio yn y naill sefydliad na'r llall. Argraff y Bwrdd yw y byddai staff yn ystyried ei ddefnydd yn cynrychioli methiant ar eu rhan.

Yn ystod y cyfnod adrodd bu 15 digwyddiad o ddefnyddio grym yng ngharchar Prescoed yn ymwneud â hebrwng carcharorion o'u hunedau i'r dderbynfa ar efynnau clicied – gydag un gefyn ar arddwrn y carcharor ac un ar arddwrn swyddog y carchar. Ym Mrynbuga bu saith achos o ddefnyddio grym.

### 4.6 Atal eitemau anghyfreithlon

Y brif elfen o gamddefnyddio sylweddau ym Mrynbuga fu masnachu meddyginiaeth

ar bresgripsiwn. Mae Prescoed yn cael hyd i gyffuriau yn achlysurol yn ogystal â masnachu mewn meddyginiaeth ar bresgripsiwn. Mae tîm chwilio cŵn yn ymweld â safle Prescoed yn achlysurol.
Mae ei bolisi dim goddefgarwch ar gamddefnyddio sylweddau wedi golygu bod nifer o ddynion wedi cael eu dychwelyd i amodau caeedig yn seiliedig ar wybodaeth a gasglwyd a phrofion amheuaeth. Fel yr adroddwyd y llynedd, mae’r carchar yn nodi cysylltiad achosol rhwng y polisi hwn a’r lefel isel o drais a bwlio a geir yn y ddau sefydliad.

Mae cytundeb meddyginiaeth gofal iechyd wedi'i lunio i'w lofnodi gan bob carcharor. Mae hyn yn ychwanegol at fwy o wyliadwriaeth - er enghraifft mae'r adran ddiogelwch yn rheoli 10% o wiriadau celloedd carcharorion ac os canfyddir anghysondeb, cwblheir adroddiad gwybodaeth sy'n arwain at ddyfarniad. Os na fydd carcharorion yn cytuno i'r cytundeb meddyginiaeth, cânt eu herio.

# 5. Triniaeth deg a dyngarol

## 5.1 Llety, dillad, bwyd

5.1.1 Adeiladwyd carchar Brynbuga yn y 19eg ganrif ac mae ganddo’r heriau llety anochel sy’n gysylltiedig â hynny. Mae ymdrechion parhaus wedi'u gwneud i liniaru'r rhain, ond mae angen cymeradwyo gwaith mawr oherwydd ei restriad Gradd ll. Mae’n darparu paradocs monitro – er bod y rhan fwyaf o garcharorion yn byw mewn amodau cyfyng, yn rhannu celloedd a gynlluniwyd ar gyfer un, mae’r canlyniadau’n parhau i fod yn dda, ac mae’r rhan fwyaf (ond nid pob un) o ddynion yn rhoi adborth cadarnhaol i aelodau’r Bwrdd fel mater o drefn.

5.1.2 Mae'r carchar yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac yn lân, prin yw'r sbwriel ac mae'r staff yn cynnal gwiriadau rheolaidd ar wedduster. Yn anffodus, ni fu unrhyw gynnydd gyda theleffoni yn y gell ac ni fanteisiwyd ar y cyfle i baratoi ar gyfer ei gyflwyno yn ystod y gwaith uwchraddio.

5.1.3 Mae carchar Prescoed wedi'i adeiladu'n fwy modern ac fe'i agorwyd yn wreiddiol yn union cyn yr Ail Ryfel Byd. Mae’r Bwrdd yn croesawu dymchwel uned Lester – rydym wedi amlygu ei chyflwr gwael a’i hanaddasrwydd mewn adroddiadau blaenorol. Mae’r trefniadau amnewid cyflawn yn aneglur ar hyn o bryd ond mae 40 o ‘gabanau’ llety hunangynhwysol unigol wedi’u sefydlu ac yn gweithio’n dda ac wedi cynorthwyo i leddfu amgylchiadau Covid-19. Y gobaith yw y bydd y rhain yn cael eu cadw yn y tymor hwy. Ymhellach mae'r Bwrdd yn deall y bydd Lester yn cael ei ddisodli gan 60 – 80 caban ‘Bunkabin’, sydd wedi’i gynllunio erbyn Rhagfyr 2022. Yn ogystal, mae dau floc tai yng ngharchar Prescoed wedi’u hadnewyddu ac mae’r holl ffenestri wedi’u newid.

5.1.6 Mae’r cynhwysedd gweithredol wedi'i addasu ar i lawr yn y ddau garchar. Mae hyn wedi arwain at leihad mewn rhannu celloedd ac wedi helpu i hwyluso gwarchodaeth, gwrthdroi carfanu, ynysu a threfniadau cydymffurfio eraill â Covid-19.

5.1.7 Mae’r Bwrdd wedi nodi bod glanweithdra wedi’i gynnal i safon uchel ar y ddau safle, yn anad dim trwy ymdrechion swyddogion diwyd, sydd wedi parhau â’r gwaith hanfodol hwn drwy gydol y pandemig.

5.1.8 Nid yw'r Bwrdd yn ymwybodol o unrhyw anawsterau hirfaith gyda'r systemau gwresogi a dŵr poeth sydd wedi effeithio ar garcharorion. Mae rhaglen o uwchraddio cellau i'w chynnal drwy gydol y cyfnod adrodd nesaf.

5.1.9 Mae dangosyddion perfformiad allweddol (DPAau) o fewn y contract cynnal a chadw wedi'u hatal, er bod y Bwrdd wedi cael sicrwydd bod safonau wedi'u cynnal ac o'r hyn a welsom mae hyn yn gywir. Mae adolygiad llety llawn yn y ddau garchar wedi'i gynllunio ond mae wedi cael ei ohirio oherwydd y pandemig.

5.1.10 Nid yw'r Bwrdd wedi cael gwybod am unrhyw bryderon parhaus ynghylch dillad a golchi dillad. Mae golchdy Prescoed wedi'i uwchraddio ac mae'n rhedeg yn dda fel arfer.

5.1.11 Mae’r systemau larwm tân yn y ddau garchar wedi’u huwchraddio’n ddiweddar ac mae hyn yn bwysig mewn hen garchar.

5.1.12 Mae'n ymddangos bod y brif gegin yng ngharchar Prescoed yn gweithio'n dda ar y cyfan er bod prinder staff (staff a gweithwyr carchar) yn peri anawsterau parhaus. Nid yw'r Bwrdd wedi derbyn unrhyw geisiadau ynglŷn â bwyd yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r llyfr sylwadau arlwyo yn y ddau garchar yn cynnwys rhai arsylwadau – rhai'n gadarnhaol a rhai negyddol – ond nid oes unrhyw themâu sy'n codi dro ar ôl tro wedi'u hategu gan dystiolaeth. Parhawyd i gyflenwi pecynnau bwyd atodol trwy'r pandemig. Mae'n ymddangos bod darpariaeth foddhaol ar gyfer dietau arbennig. Tua diwedd y cyfnod adrodd mae'r staff wedi adrodd am anawsterau wrth gael gafael ar rai o'r bwydydd a archebwyd – nid yw hyn yn ymddangos yn unigryw i'r carchar ond fe'i hadlewyrchir yn y gymuned leol.

5.1.13 Yng Ngharchar Prescoed mae 80 o garcharorion wedi dewis cymryd rhan yn y 'diwrnod siopa bwyd dydd Iau' – mae hwn ar gael i weithwyr allanol â thâl llawn ar ôl eu rhyddhau ar drwydded dros dro (ROTL). Yn gam tuag at normalrwydd, mae'n caniatáu iddynt storio detholiad o frechdanau a phrydau microdonadwy gyda'r nos pe baent yn colli'r gwasanaeth prydau poeth gyda'r nos.

## 5.2 Gwahanu

Nid oes unrhyw gyfleusterau gwahanu naill ai ym Mrynbuga na Phrescoed.

## 5.3 Perthynas staff-carcharor, gweithwyr allweddol

5.3.1 Mae'r Bwrdd yn nodi bod perthnasoedd staff/carcharorion yn ymddangos yn gadarn. Mae'r cyfathrebu rhwng y staff a'r dynion yn gyffredinol yn ymddangos yn dda ac mae cyfleoedd i gynrychiolwyr gwrdd â rheolwyr i godi problemau neu awgrymiadau. Fel y gellid disgwyl, mae rhai dynion yn anghytuno â'r asesiad hwn, ond maent yn y lleiafrif.

5.3.2 Mae'r system gweithwyr allweddol yn parhau i weithredu ym Mrynbuga, er yn amlwg mae'r pandemig ac absenoldebau staff cysylltiedig wedi amharu rhywfaint ar hyn, er bod gwiriadau cyswllt a lles sylfaenol wedi parhau ac yn cynyddu bellach.

Mae Carchar Brynbuga EF wedi ennill y cymhwyster Amgylcheddau sy'n Galluogi. Mae hyn yn cynnwys cael cynrychiolwyr carcharorion ar fyrddau amrywiol yn cael eu hannog i gymryd rhan weithredol. Yn ogystal, mae cynghorau cymuned carchardai wedi'u cyflwyno, lle mae cynrychiolwyr o grwpiau lleiafrifol. Bydd hyn yn cynnwys annog cefnogaeth a datblygiad i garcharorion gan garcharorion, cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau am amgylchedd y carchar a sicrhau bod gweithwyr allweddol yn ymgysylltu cymaint â phosibl â charcharorion. Mae'r Bwrdd yn parhau i fonitro'r datblygiad hwn.

## 5.4 Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Mae staff y carchar wedi parhau i gefnogi carcharorion sydd â nodweddion gwarchodedig fel y'u diffinnir gan y Ddeddf Cydraddoldeb yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Bydd y carchar yn cynnal arolwg cydraddoldeb i gymharu cyflyrau Covid-

19 a chyn-Covid-19 i nodi a oes unrhyw grwpiau penodol yn teimlo eu bod wedi cael eu trin yn wahanol yn ystod y pandemig. Mae carcharorion yn dweud yn gyson eu bod yn teimlo'n ddiogel yn y ddau garchar. Roedd canlyniadau holiadur nodweddion gwarchodedig Carchar Brynbuga EF yn gadarnhaol ar y cyfan ond ychydig yn llai felly yng ngharchar Prescoed; nodwyd y gwahaniaeth hwn yn ein hadroddiad diwethaf.

Cytunwyd ar strategaeth ragoriaeth Canolfan Hyfforddi Fferm Carchar Brynbuga EF, Prescoed a Cilwrgi ym mis Ionawr 2021. Mae hyn yn amlygu anghenion penodol pobl hŷn.

Mae'r swyddogion cydraddoldeb wedi elwa o'r adnoddau cynyddol o ganlyniad i gyflwyno'r llywodraethwr diogelwch penodol, gan gynnwys mwy o hyfforddiant a llenyddiaeth ar themâu addysgol. Darparwyd y canlynol: cylchgrawn “Equalities Quarterly”; mis Balchder LHDT; cylchlythyr carchar i'r rhai ag anghenion cymhleth yn ogystal â fforymau ar gyfer nodweddion gwarchodedig oedran, hil a hunaniaeth rywiol, a fforwm penodol i rai dan 25 oed. Yn ogystal, cynhelir cyfarfodydd bob dau fis ar gyfer carcharorion sy'n wladolion tramor. Mae amrywiaeth o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn sy'n adlewyrchu amrywiaeth y carcharorion. Er bod y rhain wedi bod yn wahanol yn ystod y gyfundrefn gyfyngedig, parhaodd y carchardai i gydnabod a dathlu ystod o feysydd. Mae hyn yn cynnwys Black Lives Matter, ymwybyddiaeth LHDT, Mis Hanes Sipsiwn, Roma a Theithwyr, Diwrnod Atal Hunanladdiad y Byd, ymwybyddiaeth iechyd meddwl ac anabledd. Roedd byrddau arddangos wedi'u sefydlu i hyrwyddo'r digwyddiadau hyn, dangoswyd ffilmiau ac roedd gan garcharorion ddewis o brydau dathlu i adlewyrchu'r diwylliannau priodol.

Mae poblogaeth sy’n heneiddio yng Ngharchar Brynbuga: mae 46% o’r carcharorion dros 50 oed ac mae gan 41% o garcharorion un anabledd neu fwy. Yng Ngharchar Prescoed, mae 20% o'r carcharorion dros 50 oed gyda 32% ag un anabledd neu fwy. Ymddengys bod Brynbuga yn darparu amgylchedd diogel a chefnogol i garcharorion hŷn ond gall mynediad i garcharorion ag anableddau corfforol fod yn heriol ar y ddau safle. Er bod addasiadau wedi’u gwneud i’r ystafelloedd cawod, dim ond un lifft grisiau sydd ar gyfer y tair adain yng Ngharchar Brynbuga. Mae’r rhan fwyaf o ddynion hŷn yn dweud eu bod yn teimlo’n ddiogel ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi.

Mae’r ystafell cameo, a ddatblygwyd i ddarparu canolfan weithgareddau i garcharorion hŷn yng Ngharchar Brynbuga, wedi’i chau oherwydd y cyfyngiadau symud, gyda rhai eithriadau penodol fel gweithgareddau ffydd. Mae'r carcharorion yn awyddus bod hon yn ailagor pan fydd trefn y carchar yn caniatáu.

Mae'r fforwm LHDT wedi parhau yn ystod y flwyddyn. Roedd y carchar yn gartref i ddau garcharor trawsryweddol, ac mae un ohonynt bellach wedi gadael. Mae byrddau achos trawsryweddol wedi'u cynnal, ond nid oedd y BMA yn gallu mynychu'r rhain.

Cyflwynwyd 21 o ffurflenni adrodd am ddigwyddiad gwahaniaethu (DIRFau) gyda 12 yn cael eu cadarnhau a chwech heb eu cadarnhau, gyda thair (gyflwynwyd ym mis Mawrth) yn destun ymchwiliad yn ystod y cyfnod adrodd, sydd bellach wedi’u datrys.

Mae argymhellion Adroddiad Lammy yn parhau i gael eu monitro gan y bwrdd cydraddoldeb ac amrywiaeth. Yn ystod y cyfnod adrodd, cynhaliwyd y cyfarfodydd hyn trwy delegynhadledd, gydag aelodau'r Bwrdd yn bresennol. Er nad yw'n ddelfrydol, gan nad yw carcharorion yn cymryd rhan, maent wedi cadw'r agenda hon i symud yn ei blaen.

### 5.5 Ffydd a chefnogaeth fugeiliol

Mae hyn wedi bod yn heriol i'w fonitro yn ystod y pandemig a'r cyfnod cloi. Mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth naill ai wedi'i hadrodd gan y gaplaniaeth neu drwy'r bwrdd cydraddoldebau.

Yn ystod ymweliadau, dywedodd y carcharorion eu bod yn gallu parhau i gadw at eu ffydd. Mae'r gwyliau crefyddol wedi cael eu dathlu cymaint â phosibl, tra'n sicrhau diogelwch Covid-19.

Mae gan y carcharorion ystod o ffydd a chredoau. Mae'r rhain yn cynnwys Bwdhaeth, Paganiaeth, Iddewiaeth, Hindŵaeth, Mwslemiaeth, Sikhaeth, Mormoniaeth, Tystion Jehofa, a gwahanol fathau o Gristnogaeth. Mae caplaniaid y carchar wedi parhau i ymweld yn ystod y pandemig. Er na allent mwyach gynnig addoliad grŵp, megis gweddïau dydd Gwener, oni bai bod carcharorion yn dod o'r un garfan, maent wedi llwyddo i gynnig gweddi ac addoliad unigol, yn ôl y gofyn.

Amlygodd arolwg yng Ngharchar Prescoed EF waith yr imam, a barhaodd i gynnig cefnogaeth ysbrydol ac emosiynol i bobl o bob ffydd a dim ffydd.

Mae cylchlythyr misol Prescoed bellach yn cynnwys adran o'r enw 'Faith in You', lle mae adnoddau, grwpiau cefnogi ffydd, clybiau llyfrau ffydd a llinell weddi Cymrodoriaeth y Carchar i gyd wedi'u rhestru. Mae carcharorion yn cael eu hannog i gyflwyno erthyglau, yn egluro pam mae eu ffydd yn bwysig iddyn nhw.

Yn anffodus, caewyd yr ystafell aml-ffydd yng Ngharchar Brynbuga EF yn ystod y cyfnod adrodd oherwydd difrod. Yn flaenorol, roedd yn hygyrch i bob carcharor. Gall grwpiau nad ydynt yn Gristnogion neu grwpiau ffydd sy'n well ganddynt beidio â defnyddio'r capel ddefnyddio'r ystafell cameo.

### 5.6 Cynlluniau cymhellion

Yn dilyn yr achosion o Covid, tua thair blynedd yn ôl, gwnaed y penderfyniad i symud pob dyn yn y sefydliad i drefn "well". Roedd hyn er mwyn lliniaru effaith niweidiol y cynnydd sylweddol mewn amser yn y celloedd a newidiadau eraill i'r gyfundrefn a ddigwyddodd i sicrhau bod staff a dynion yn ddiogel. Ym mis Gorffennaf, gan nad yw'r sefydliadau bellach o dan gyfyngiadau rheolau Covid a weithredwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, byddant yn ailgyflwyno'r cynllun cymhellion yn llawn.

### 5.7 Cwynion

5.7.1 Carchar Prescoed EF: ychydig o gwynion a gafwyd yn ystod y cyfnod adrodd (89). Roedd uchafbwyntiau (y modd) yn canolbwyntio ar eiddo (16) a materion preswyl (17). Mae'n werth nodi na chafwyd unrhyw gwynion ynghylch trais na chyfyngiadau ymweliadau.

5.7.2 Carchar Brynbuga EF: cafwyd 300 o gwynion yn ystod y cyfnod adrodd, ac mae'n werth nodi bod dros 30% wedi dod gan un unigolyn. Roedd yr uchafbwynt (modd) yn ymwneud â materion preswyl. Unwaith eto, nid oedd unrhyw gwynion ynghylch trais a dim ond pedwar yn ymwneud ag ymweliadau.

### 5.8 Eiddo

Daeth llawer o gwynion, ym Mrynbuga a Phrescoed, o faterion yn ymwneud â throsglwyddo eiddo o garchardai eraill.

## 6. Iechyd a lles

### 6.1 Gofal iechyd cyffredinol

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB) yn darparu'r holl wasanaethau iechyd ar gyfer Carchar Brynbuga EF a Charchar Prescoed EF. Mae gwasanaethau meddygon teulu, deintyddol ac optegol yn cael eu rhoi ar gontract allanol.

Yn ystod y pandemig mae aelodau'r BMA wedi bod mewn cysylltiad cyson â gofal iechyd ac ym marn y Bwrdd mae cydweithio da yn bodoli rhwng swyddogion a staff gofal iechyd. Mae hyn wedi hwyluso rheolaeth effeithiol ar y ddau safle. Mae ymdrechion wedi'u gwneud i symud ymlaen i statws cyn-Covid ond, yn ystod y cyfnod adrodd, roedd heriau'n parhau oherwydd sawl atgyfodiad yn y pandemig.

Mae gofal iechyd yng Ngharchardai Brynbuga a Phrescoed EF yn wasanaeth pum diwrnod yr wythnos ond nid yw'n 24 awr. Mae anawsterau'n codi pan fydd carcharorion yn cyrraedd y naill sefydliad neu'r llall ar ddiwedd y diwrnod gwaith sy'n ei gwneud yn ofynnol i staff ymestyn eu horiau i ddarparu ar gyfer y gweithdrefnau angenrheidiol. Gall carcharorion gyrraedd o'r sefydliad anfon lle mae meddyginiaeth waharddedig wedi'i ragnodi iddynt nad yw'n briodol i gyfleuster meddygol nad yw'n 24 awr. Gellir eu trosglwyddo heb yn wybod i'r sefydliad gofal iechyd anfon, felly nid oes gwybodaeth fanwl am feddyginiaeth ragnodedig (yn enwedig meddyginiaeth seiciatrig) ar gael. O bryd i'w gilydd bydd carcharorion yn cyrraedd nad ydynt wedi cael eu hasesu o'r blaen gan y sefydliad gofal iechyd sy'n anfon.

Mae cyfathrebu rhwng gofal iechyd a rheolwyr carchardai yn gadarnhaol. Fodd bynnag, gydag adnoddau GIG cyfyngedig (argaeledd apwyntiadau) mae'n hanfodol bod penodiadau carcharorion yn cael eu cynnal mewn modd amserol. Mae problemau ymarferol yn cynnwys y ffaith bod tacsis o bryd i'w gilydd yn cyrraedd yn gynnar iawn ac yn cael eu troi i ffwrdd neu'n cyrraedd yn hwyr gyda'r apwyntiad claf yn cael ei golli. Mae'r sefyllfa hon yn gofyn am fwy o gyfathrebu rhwng yr adran ddiogelwch (sy'n archebu tacsis) a gofal iechyd. Mae aildrefnu apwyntiadau yn achosi gofid i'r carcharor ac anghyfleustra i'r GIG a gallai arwain at honiadau o esgeulustod pe bai apwyntiadau critigol yn cael eu methu.

Bydd y cynnydd arfaethedig yn y boblogaeth yng Ngharchar Prescoed yn golygu y

bydd angen staff nyrsio ychwanegol a gofod ymgynghori ychwanegol yn y cyfleuster gofal iechyd.

Mae myfyrwyr nyrsio unwaith eto yn cael llety ac yn cael adborth cadarnhaol.

**Covid**

Hwn oedd y sefydliad cyntaf yng Nghymru ac ymhlith y cyntaf ledled y DU i symud ymlaen i gam 1 o fewn y cyfnod adrodd hwn. Parhaodd y bartneriaeth rhwng y sefydliad ac asiantaethau allanol yn gryf yn ystod pandemig Covid. Er ei bod yn ymddangos bod adferiad wedi dechrau gyda ffyrdd newydd o weithio, cafodd hyn ei lesteirio gan gynnydd mewn achosion a gadarnhawyd o fewn y ddau sefydliad ymhlith carcharorion a staff yn ystod rhan gynnar 2022. Cafodd problemau oherwydd tirwedd newidiol y feirws a'i effeithiau eu gwaethygu gan y gwahaniaeth mewn canllawiau rhwng Cymru a Lloegr a'r gofyniad i rannu gwybodaeth i lawer o ffynonellau.

Er bod datblygiad gwasanaethau wedi’i ohirio yn ystod y pandemig, mae cynnydd wedi’i wneud gyda rhai cynlluniau i wella gwasanaethau gyda chymorth arian gan Lywodraeth Cymru.

## 6.2 Gofal iechyd corfforol

Darperir gwasanaethau meddygol cyffredinol gan Ganolfan Iechyd Malpas Brook. Mae tair cymhorthfa yr wythnos ym Mrynbuga a dwy yng ngharchar Prescoed. Mae'n ymddangos bod y gwasanaethau a ddarperir i garcharorion yn debyg i'r rhai sydd ar gael yn y gymuned.

Cefnogwyd nyrs gofrestredig Band 6 trwy ei modiwl mân salwch, a bydd hyn yn sicrhau parhad gofal ar draws y ddau safle. Yn ystod y cyfnod adrodd, ymgymerodd gweithwyr cymorth gofal iechyd Band 4 a Band 3 â thystysgrifau lefel 4. Mae gweithiwr cymorth gofal iechyd Band 3 arall wedi cwblhau’r cwrs Buttercup sy’n ei galluogi i gynorthwyo gydag archebu a rhoi meddyginiaeth i’r dynion. Mae gweithiwr Band 7 yn gweithio i gwblhau ei thraethawd hir MSc a fydd yn ehangu ac yn gwella'r gwasanaeth a arweinir gan nyrsys.

Oherwydd y pandemig, bu oedi cyn dechrau hyfforddiant mewn iechyd rhywiol er mwyn darparu clinigau iechyd rhywiol ar draws y ddau safle. Mae cynlluniau ar y gweill i ddau aelod o'r tîm fynychu cwrs ym Mhrifysgol Abertawe er mwyn galluogi hyn i fynd yn ei flaen.

**Diwedd oes/gofal lliniarol**

Cytunwyd ar y llwybr diwedd oes y llynedd. Hyd yn hyn nid oes angen defnyddio hwn ac mae'r llety'n cael ei ddefnyddio gan garcharorion ag anableddau ar hyn o bryd.

**Offthalmoleg**

Mae Pen Optical yn darparu dwy sesiwn y mis ar bob safle. Mae dynion fel arfer yn derbyn eu sbectol presgripsiwn o fewn wythnos.

**Gwasanaethau deintyddol**

Mae contract cyfnod penodol yn rhedeg tan 31 Mai 2023 gydag Time for Teeth. Darperir dwy sesiwn ddeintydd yr wythnos ym Mrynbuga a Phrescoed gyda hylenydd deintyddol yn darparu un sesiwn foreol yr wythnos ym Mrynbuga. Anogir y dynion yng ngharchar Prescoed i fynd at eu deintydd eu hunain pan fyddant ar absenoldeb cartref, ond nid yw hyn wedi digwydd yn aml yn ystod y 12 mis diwethaf. Gall y ddau safle gael mynediad at y gwasanaethau brys yn ôl yr angen. Mae'r tîm wedi llwyddo i leihau'r amser aros ac mae'n ymddangos bod y gwasanaethau cystal â'r rhai sydd ar gael yn y gymuned.
Mae arian ychwanegol wedi'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer sesiynau ychwanegol ar gyfer optometreg a thriniaeth ddeintyddol yn dilyn y pandemig i fynd i'r afael â'r rhestrau aros.

**Fferylliaeth**
Yn dilyn archwiliad gan HMPS a Llywodraeth Cymru, bydd 0.6 technegydd fferyllol cyfwerth ag amser llawn a 0.4 fferyllydd cyfwerth ag amser llawn yn fewnol.

## 6.3 Iechyd meddwl

Fel rhan o'r llwybr gwasanaeth awtistiaeth integredig mae uwch therapydd galwedigaethol ym maes iechyd meddwl wedi'i ariannu'n rhannol i asesu ac adolygu cleifion â'r diagnosis hwn ac i nodi'r rhai a allai fod yn gymwys i gael diagnosis.

Mae'r rhaglen mewngymorth iechyd meddwl oedolion hŷn wedi dod i ben oherwydd bod y clinigwr unigol wedi newid ei horiau gwaith sylweddol. Erys peth cymorth drwy broses atgyfeirio. Nid yw'r Bwrdd yn ymwybodol o unrhyw gynlluniau ar gyfer rhywun yn ei le.

## 6.4 Gofal cymdeithasol

Mae gwaith yn parhau gyda thîm integredig Sir Fynwy. Yn ystod y cyfnod adrodd, daeth y broblem i'r amlwg o boblogaeth carchardai yn heneiddio gyda chyfleusterau annigonol i'w lletya. Mae'r ystafelloedd/celloedd yn gyfyngol o ran maint ac yn anaddas i'r rhai sydd â phroblemau symudedd. Mae bydis yn cynnig cymorth i garcharorion o'r fath; fodd bynnag, ni allant gynorthwyo gyda materion hylendid 'ymarferol', ac nid yw cawodydd ar gael yn hawdd i garcharorion o'r fath. O bryd i'w gilydd, mae staff y carchar yn gwneud materion matresi ac esgidiau yn faterion meddygol. Mae hyn yn anaddas gan nad ydynt yn gyfrifoldeb gofal iechyd.

## 6.5 Ymarfer corff, trefn

Yn ystod y cyfnod adrodd mae'r drefn ymarfer corff wedi amrywio, gyda gwelliant diweddar i amser allan o'r gell a dechrau trefn arferol. Roedd y carchar yn un o'r rhai cyntaf i gael symud i gam 2 a chynyddu'r amser y tu allan i'r gell. Mae achosion amrywiol o Covid-19 wedi gwneud y gyfundrefn yn gyfyngol; er gwaethaf hyn, manteisiwyd ar bob cyfle i roi cyfle i'r dynion wneud ymarfer corff, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau am o leiaf awr y dydd.

## 7. Cynnydd ac ailsefydlu

Dyma'r maes lle mae bywyd carchar wedi parhau i fod yn fwyaf heriol yn ystod y cyfnod adrodd.

### 7.1 Addysg, llyfrgell

Mae'r cyfnod clo (h.y. dynion yn cael eu cloi yn eu cell am hyd at 23 awr y dydd o bryd i'w gilydd) wedi cael effaith negyddol aruthrol ar gyflwyno addysg yn ystod y cyfnod, ond ymdrechodd staff i sicrhau bod rhai cyfleoedd ar gael.

Er enghraifft:

- Rhoddwyd benthyciadau gliniaduron i fyfyrwyr y Brifysgol Agored er mwyn iddynt allu parhau â'u hastudiaethau.
- Sefydlwyd teledu addysg yn y gell wedi'i gefnogi gan lyfrau gwaith.
- Ariannwyd a sefydlwyd nifer o gyrsiau dysgu o bell gan Ymddiriedolaeth Addysg y Carcharorion.
- Roedd gwasanaethau llyfrgell ar y ddau safle yn cael eu cynnal gan y carcharorion eu hunain. Am bron i flwyddyn buont yn llwyddo i reoli, gweinyddu a chynnal catalogio a benthyca hyd nes i lyfrgellydd newydd gyrraedd ar 1 Mawrth 2022.

### 7.2 Hyfforddiant galwedigaethol, gwaith

Er gwaethaf cyfyngiadau clo Covid parhaodd Carchar Prescoed i fod yn llwyddiannus wrth ddarparu lleoliadau gwaith i garcharorion. Yn flaenorol, roedd Prescoed yn hwyluso tua 120 o ddynion yn gweithio oddi ar y safle ar Ryddhad ar Drwydded Dros Dro (ROTL) bob dydd. Mae'n bwysig nodi bod y swyddi hyn yn cael eu talu'n dda ar y cyfan ac yn cynnwys galwedigaethau fel:

- gyrru Cerbydau Nwyddau Trwm
- adeiladu
- cynnal a chadw rheilffyrdd a thraciau
- gweithgynhyrchu
- gwaith warysau
- rheoli gwastraff
- amaethyddiaeth

Mae'r rhain yn galluogi dynion i gael cyflogaeth broffidiol ar ôl eu rhyddhau. Mae canlyniadau'r tîm o ran diogelu a datblygu cyfleoedd yn parhau i wneud argraff ar y Bwrdd. Er enghraifft, yn ystod y pandemig daethpwyd o hyd i waith i ddynion, sef helpu i adeiladu'r ysbyty newydd yng Nghwmbrân, er budd iddynt hwy a'r ardal leol. Ar ddiwedd mis Mawrth 2022 roedd 100 o garcharorion yn gweithio yn y gymuned tra'r oeddent ar drwydded dros dro; roedd 82% o'r rhain mewn gwaith cyflogedig ac yn mynd i'r gwaith bob dydd. Er mwyn cyflawni hyn, parhaodd y tîm lleoliadau cymunedol i ddatblygu perthnasoedd newydd gyda chyflogwyr – er enghraifft mae dynion yn gweithio i Trafnidiaeth Cymru i helpu i adeiladu Metro De Cymru ac o bosib yrfa hirdymor iddynt eu hunain.

Parhaodd arholiadau'r Bwrdd Arholi Cenedlaethol mewn Diogelwch ac Iechyd Galwedigaethol (NEBOSH) drwy gydol y cyfnod cloi (arholiadau llyfr agored 24 awr yn y celloedd wedi'u cwblhau ar liniaduron a fenthycwyd).

## 7.3 Rheoli troseddwyr, dilyniant

7.3.1 Mae cyswllt rhwng carcharorion a Rheolwyr Troseddwyr Cymunedol wedi'i effeithio'n ddifrifol gan gyfyngiadau Covid-19 a lefelau staffio isel.

Fodd bynnag, o'i gymharu â'r cyfnod adrodd diwethaf (h.y., dechrau'r pandemig) mae'r uned rheoli troseddwyr (OMU) wedi gweld cynnydd yn lefel y cyswllt wyneb yn wyneb rhwng carcharorion a staff yr OMU a gweithwyr allweddol – mae hyn yn werthfawr. Mae cyswllt bellach yn rheolaidd yn hytrach nag ysbeidiol sydd wedi golygu bod gwaith sy'n ymwneud â monitro ymddygiad uwch wedi ailddechrau.

Yng ngharchar Prescoed, o dan y system rheoli troseddwyr yn y ddalfa (OMiC) mae pob carcharor yn cael cyfle i ddod i gysylltiad rheolaidd â rheolwr troseddwyr carchar (POM). Mae adborth y Bwrdd yn awgrymu bod y rhan fwyaf o'r dynion yn gwerthfawrogi hyn. Mae'n ymddangos bod y model OMiC yn ymwreiddio ar draws y ddau safle ac mae'r Bwrdd wedi nodi cynnydd yn lefel y cyswllt â rheolwyr troseddwyr cymunedol. Cyflawnwyd hyn trwy gysylltiadau wyneb yn wyneb ar y safle a system fideo sydd ar gael ar draws y ddau safle.

7.3.2 Yn ystod y pandemig mae cyfarfodydd trefniadau amddiffyn y cyhoedd aml-asiantaeth (MAPPA) wedi'u cynnal trwy Microsoft Teams ac mae hyn yn ymddangos yn foddhaol. Mae Carchar Prescoed wedi gallu cadw mwy o gyswllt wyneb yn wyneb oherwydd ei fod yn garchar agored. Mae'r ddau sefydliad yn cydnabod bod dogfennaeth a dderbyniwyd gan sefydliadau anfon wedi gwella er bod pryderon wedi'u codi yng ngharchar Prescoed ynghylch asesiadau risg a dderbyniwyd gan garchardai agored eraill, ac mae pryderon o'r fath wedi'u huwchgyfeirio drwy grwpiau rheoli. Mae model OMiC yn gweld mwy o swyddogion prawf yn dod i mewn i sefydliad Prescoed wrth i gyfyngiadau Covid leihau, ac mae'n ymddangos bod hyn yn cael ei werthfawrogi gan y dynion. Mae pob agwedd ar ROTL at ddibenion adsefydlu a chyflogaeth wedi dychwelyd i ddull busnes fel arfer. Gall carcharorion wneud cais am ROTL ar ôl eu trosglwyddo i garchar Prescoed yn dilyn yr asesiad risg gofynnol a'r gwiriadau diogelu.

7.3.3 Mae hyd at 50% o'r dogfennau OASys a dderbynnir yng Ngharchar Brynbuga yn amrywio o ran ansawdd gyda'r adran 'Dechrau yn y Ddalfa' naill ai'n aros yn wag neu ansawdd y cofnodi yn methu â chyrraedd y disgwyl. Derbynnir bod diffyg adnoddau yn cyfrannu at hyn.

### Rhaglenni ymddygiad troseddol

Mae gwaith grwpiau bach bellach wedi ailddechrau ond oherwydd y pandemig ni osodwyd targed ar gyfer 2021-22.

## 7.4 Cyswllt teuluol

Yn ystod y cyfnod adrodd, parhaodd y carchar i weithio gyda Pact i sicrhau bod cymorth ar gael i ddynion a'u teuluoedd yn ystod cyfyngiadau Covid-19.

Yng ngharchar Prescoed yn ystod y cyfnod adrodd mae bron i 1,400 o alwadau fideo cymdeithasol (a ddarperir gan Purple Visits) wedi digwydd gyda chyfartaledd o dros 125 y mis. Wrth i gyfyngiadau leddfu, mae ymweliadau teuluol personol wedi dychwelyd.

## 7.5 Cynllunio ailsefydlu

Bu 24,221 o gyfnodau o ROTL hyd at ddiwedd mis Mawrth 2022 gyda dim ond 30 o fethiannau; mae hyn yn drawiadol. Mae rhyddhau ar ddiwrnod ailsefydlu (RDR) a rhyddhau dros nos adsefydlu (ROR) wedi ailddechrau. Tra bod Prescoed o dan gyfyngiadau Covid cam 1 roedd y carchar yn annog partneriaid allanol i ddychwelyd i'r gwaith yn y carchar, ond roedd cyfleusterau ar gael ar gyfer cyswllt ffôn pan nad oedd cyswllt wyneb yn wyneb yn cael ei ganiatáu.

7.5.1 Mae'r holl asiantaethau bellach wedi dychwelyd i gyfarfodydd wyneb yn wyneb ac mae'r ganolfan aml-asiantaeth wedi'i hailgynllunio i gynnig man aros ac ystafell gyfarfod fach at ddefnydd carcharorion. Mae'r ganolfan ar agor drwy gydol yr wythnos waith gyda charcharor wedi'i leoli yn y man aros i gymryd archebion.

Ers y cyfnod adrodd diwethaf, mae ymarferwyr prawf wedi disodli Ymddiriedolaeth St Giles. Eu swyddogaeth bresennol yw cyfarfod â charcharorion a hwyluso ceisiadau am gyfrifon banc a darparu dogfennau adnabod (e.e. trwydded yrru a/neu dystysgrif geni) i gynorthwyo gyda cheisiadau am dai. Yn ystod y cyfnod adrodd mae gweithwyr ailsefydlu wedi cynorthwyo:

- Ceisiadau ID – 150
- Agor cyfrifon banc – 63
- Ceisiadau tai – 24

Mae'r Bwrdd fel arfer yn monitro nifer y carcharorion sy'n mynd i dai ar eu noson gyntaf ar ôl eu rhyddhau; yn ystod y cyfnod adrodd rydym wedi cael gwybod bod Prescoed wedi cyflawni cyfradd llwyddiant o 94%. Mae'r rhan fwyaf o ddynion o Frynbuga yn mynd i eiddo cymeradwy neu Garchardai Agored.

# 8. Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol

8.1 Yn ystod cyfnod cloi Covid-19 mae tystiolaeth y Bwrdd wedi deillio o:

- cyswllt â charcharorion a staff yn ystod monitro corfforol
- monitro unedau ac esgyll o bell bob wythnos
- galwadau cynadledda cyfyngedig gyda'r Gwrandäwr a grwpiau cynrychioli carcharorion eraill gan fod cyfyngiadau symud wedi atal llawer o'r rhain
- cyfarfodydd o bell parhaus a diweddariadau gan y Llywodraethwr a'r UDRh
- dadansoddi gwybodaeth rheoli carchardai yn erbyn cofnodion y Bwrdd ac adroddiadau rota
- adolygiad o geisiadau carcharorion i'r Bwrdd (gweler y tabl perthnasol a'n sylw atodol)
- adolygiad o system gwynion y carchar, ynghyd â'r adolygiadau DIRF chwarterol
- presenoldeb o bell mewn cyfarfodydd allweddol – er enghraifft:
    - cyfarfodydd cydraddoldeb (sy'n cynnwys staff a charcharorion)
    - cyfarfodydd defnydd grym chwarterol

**Ystadegau'r Bwrdd**

| | |
|---|---|
| Nifer yr aelodau Bwrdd sy'n cael ei argymell | 15 |
| Nifer yr aelodau Bwrdd ar ddechrau'r cyfnod adrodd | 10 |
| Nifer yr aelodau Bwrdd ar ddiwedd y cyfnod adrodd | 7 |
| Cyfanswm yr ymweliadau â'r sefydliad | 97 |
| Cyfanswm nifer yr adolygiadau gwahanu a fynychwyd | Ddim yn berthnasol |

**Ceisiadau i'r BMA**

| Cod | Pwnc | Blwyddyn adrodd flaenorol | Blwyddyn adrodd gyfredol |
|---|---|---|---|
| A | Llety, gan gynnwys golchi dillad, dillad, golchiadau | 0 | 2 |
| B | Disgyblaeth, gan gynnwys dyfarniadau, Cymhellion a Breintiau a Enillir, sancsiynau | 0 | 1 |
| C | Cydraddoldeb | 0 | 3 |
| D | Gweithgaredd pwrpasol, gan gynnwys addysg, gwaith, hyfforddiant, llyfrgell, trefn, amser allan o'r gell | 0 | 0 |
| E1 | Llythyrau, ymweliadau, ffonau, cyfyngiadau diogelu'r cyhoedd | 1 | 3 |
| E2 | Cyllid, gan gynnwys tâl, arian preifat, gwariant | 0 | 2 |
| F | Bwyd a cheginau | 3 | 0 |
| G | Iechyd, gan gynnwys gofal corfforol, meddyliol, cymdeithasol | 0 | 1 |
| H1 | Eiddo o fewn y sefydliad hwn | 0 | 0 |
| H2 | Eiddo yn ystod y trosglwyddiad neu mewn sefydliad neu leoliad arall | 4 | 2 |
| H3 | Ffreutur, rhestr cyfleusterau, catalog(au) | 2 | 0 |
| I | Rheoli dedfrydau, gan gynnwys Cyrffyw Cadw yn y Cartref, rhyddhau ar drwydded dros dro, parôl, dyddiadau rhyddhau, ail-gategoreiddio | 2 | 2 |
| J | Pryderon staff/carcharor, gan gynnwys bwlio | 0 | 1 |
| K | Trosglwyddiadau | 0 | 3 |
| L | Amrywiol, gan gynnwys system gwynion | 0 | 1 |
| | Cyfanswm y ceisiadau | 12 | 21 |

## 8.1 Sylw atodol am geisiadau:

Yn 2019, 2020 a 2021, gwnaeth y Bwrdd sylwadau ar y nifer fach o geisiadau a gyflwynwyd gan garcharorion. Mae bellach wedi ail-ymchwilio a ddylai hyn fod yn achos pryder. Gallai'r sbectrwm o resymau posibl gynnwys un o'r canlynol:

- Bod y niferoedd yn ddangosydd sy'n awgrymu bod carcharorion yn cael eu rheoli'n dda a bod y berthynas rhwng carcharorion a staff yn gyffredinol foddhaol. Y casgliad a awgrymir yn yr achos hwnnw yw nad yw carcharorion yn teimlo bod angen cyflwyno ceisiadau ffurfiol.
- Bod y niferoedd yn ddangosydd negyddol sy'n awgrymu bod carcharorion wedi ymddieithrio o'r drefn, yn ofni canlyniadau posibl (er enghraifft, yn cael

eu symud i garchar arall) neu wedi'u dadrithio cymaint gydag effeithiolrwydd y Bwrdd fel nad ydynt yn trafferthu cyflwyno ceisiadau.

### 8.1.2 Ein casgliadau ynglŷn â cheisiadau

Mae'r Bwrdd wedi adolygu'r hyn y mae'n ei weld fel yr elfennau perthnasol, sy'n cynnwys:

- natur y perthnasoedd y mae aelodau'r Bwrdd wedi'u gweld rhwng carcharorion a staff
- adborth gan gynrychiolwyr carcharorion e.e. Gwrandawyr a chyfeillion
- amgylchiadau anarferol y pandemig Covid-19
- adolygiad o wybodaeth reoli ar ddynion yn dychwelyd i amodau caeedig, yn gysylltiedig ag arsylwi ar y safle

Mae gan garcharorion yng ngharchardai Brynbuga a Phrescoed fynediad at rif llinell gymorth BMA 0800 (rhadffôn) sy'n galluogi dynion i leisio eu pryderon a gwneud ceisiadau'n uniongyrchol i'r BMA. Mae’r carchar wedi cefnogi’r fenter hon ac mae wedi’i hysbysebu yn y cylchlythyr (wedi’i gynhyrchu a’i olygu gan y dynion) a thrwy sgrin newyddion y carchar.

Er mwyn sicrhau bod dynion yn gallu cyrchu’r system ymgeisio heb rwystr bydd y Bwrdd yn derbyn ceisiadau ar lafar pan fyddwn yn ymweld, ac nid oes angen i ddynion ddefnyddio’r ffurflen BMA i ysgrifennu atom gan i ni nodi nad oedd y ffurflenni priodol bob amser ar gael. Er mwyn cydymffurfio â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) mae hyn yn golygu ei bod yn ofynnol i aelodau’r Bwrdd gario copïau sbâr o’r ffurflenni cymeradwy fel y gall dynion eu harwyddo. Mae hyn yn golygu y gallant ddarllen yr hysbysiad preifatrwydd a'u bod yn ymwybodol y gallai fod angen i aelodau siarad â staff i brosesu eu cais.

Mae'r Bwrdd yn derbyn sylwadau (cadarnhaol a negyddol) gan y dynion a phan fo angen, mae'r rhain yn cael eu trosglwyddo i'r UDRh trwy ein hadroddiadau rota, a'u trafod gyda'r Llywodraethwr mewn cyfarfodydd Bwrdd. Gall hyn leihau'r angen am geisiadau ffurfiol trwy ddatrys problemau yn gynnar.

Yn flaenorol, awgrymodd rhai carcharorion y gallai’r rhai sy’n cyflwyno ceisiadau gael eu ‘cludo allan’ fel cosb am gwyno i’r Bwrdd. Yn y cyfnodau adrodd 2017/18, 2020/21 ac eto yn 2021-22 cynhaliodd y Bwrdd adolygiadau ac ni chanfu unrhyw gydberthynas rhwng y rhai a oedd yn cyflwyno ceisiadau ac yn symud i garchardai eraill neu (yn achos Prescoed) yn dychwelyd i amodau caeedig. Mae'r canfyddiadau hyn wedi'u cyfathrebu'n rheolaidd yn y carchar.

I gloi: nid yw'r Bwrdd wedi canfod unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r syniad fod y nifer fechan o geisiadau a dderbyniwn yn arwydd negyddol. Barn y Bwrdd yw bod carcharorion ar y cyfan yn gyfforddus wrth gyflwyno ceisiadau ac y byddent yn gwneud hynny pe baent yn teimlo’r angen. Mae carcharorion yn defnyddio system Comp1 y carchar ac yn ogystal yn trafod materion sy'n peri pryder gyda'r Bwrdd. Mae'r Bwrdd yn parhau i gadw'r sefyllfa hon dan adolygiad.

## 8.2 Geirfa

| | |
|---|---|
| **ACCT** | Asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm (*Assessment, care in custody and teamwork*) |
| **CCQI** | Canolfan Gwella Ansawdd y Coleg. (*College Centre for Quality Improvement*) Mae Coleg Brenhinol y Seiciatryddion yn gweithio gyda gwasanaethau iechyd meddwl i asesu a gwella ansawdd y gofal a ddarperir. Er mwyn cyflawni a chynnal achrediad mae angen i wasanaeth ddangos safonau cyson uchel dros amser. Adolygir y rhain yn rheolaidd. *Gweler rcpsych.ac.uk/improving-care* |
| **CSIP** | Cynllun her, cefnogaeth ac ymyrryd (*Challenge, support, and intervention plan*) |
| **Dyfodol** | Mae Dyfodol yn rhan o ddarpariaeth atal niwed cyfiawnder troseddol yng Nghymru ac yn cynnig asesiad, triniaeth a chefnogaeth i'r rhai sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol |
| **HMIP** | Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi (*His Majesty's Inspectorate of Prisons*) |
| **HMP** | Carchar ei Fawrhydi (*His Majesty's Prison*) |
| **HMPPS** | Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (*His Majesty's Prison and Probation Service*) |
| **IMB** | Bwrdd Monitro Annibynnol (*Independent Monitoring Board*) |
| **MAPPA** | Trefniadau diogelu'r cyhoedd aml-asiantaeth (*Multi-agency public protection arrangements*) |
| **MCOSO** | Dynion yn euog o droseddau rhyw (*Men convicted of sexual offences*) |
| **MoJ** | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (*Ministry of Justice*) |
| **OASys** | System asesu troseddwyr (*Offender assessment system*) |
| **OMU** | Uned rheoli troseddwyr (*Offender management unit*) |
| **OpCap** | Gallu gweithredol (*Operational capacity*). Mae hyn yn ymwneud â chyfanswm nifer y carcharorion y gall sefydliad eu dal heb risg difrifol i drefn dda, diogelwch a rhediad priodol y carchar |
| **OMiC** | Rhoddwyd y model rheoli troseddwyr yn y ddalfa (OMiC - *offender management in custody*) ar waith o fis Ebrill 2018 fel fframwaith i gydlynu taith carcharor drwy'r ddalfa ac yn ôl i'r gymuned. Mae OMiC yn bwriadu rhoi adsefydlu wrth wraidd gwaith carcharu ac ôl-rhyddhau i leihau aildroseddu a hyrwyddo ailintegreiddio cymunedol. Mae OMiC yn darparu gweithiwr allweddol, sy'n swyddog carchar, i bob carcharor yn yr ystâd gaeedig i oedolion gwrywaidd a phob menyw gymwys yn yr ystâd i fenywod, sydd yno i arwain, cefnogi a hyfforddi unigolyn drwy ei ddedfryd o garchar. Mae gweithwyr |

| | |
|---|---|
| | allweddol a rheolwyr troseddwyr carchardai, a gyflogir gan y Gwasanaeth Prawf, yn cydweithio |
| **OPCAT** | Protocol Dewisol i'r Confensiwn yn erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosb Arall Greulon, Annynol neu Ddiraddiol (*Optional Protocol to the Convention against Torture and Other Cruel, Inhuman or Degrading Treatment or Punishment*). Mae'n gytundeb rhyngwladol y mae'r DU yn un o'i lofnodwyr sefydlu, ac mae'r BMAau yn rhan bwysig o rwymedigaeth y DU mewn carchardai. Mae BMAau yn rhan o Fecanwaith Ataliol Cenedlaethol y DU, a sefydlwyd o dan yr OPCAT |
| **ROTL** | Rhyddhau ar drwydded dros dro (*Release on temporary licence*). Mae ROTL yn rhan o'r broses ar gyfer adsefydlu ac ailsefydlu carcharorion. Mae'r cyfle i gael mynediad at ROTL yn elfen allweddol ar gyfer paratoi eu rhyddhau'n ddiogel. Mae hyn yn rhoi'r cyfle iddynt drefnu gwaith, tai ac ailsefydlu perthnasau gyda theuluoedd a'u cymunedau. Gwneir y penderfyniad i ganiatáu ROTL yn dilyn asesiad risg trwyadl ac nid oes unrhyw ragdybiaeth y bydd yn cael ei ganiatáu. Bydd yr asesiad hwn yn cynnwys ymchwiliad i ryddhad blaenorol ar drwydded dros dro, hanes troseddol, diogelu plant, asesiad prawf, sefyllfa'r dioddefwr, ymddygiad y carcharor yn ystod y ddalfa a gwybodaeth yr heddlu |
| **Pact** | Mae'r Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carchardai (Pact - *The Prison Advice and Care Trust*) yn elusen genedlaethol annibynnol sy'n gweithio gyda charcharorion a theuluoedd carcharorion. Ei chenhadaeth yw cefnogi carcharorion a'u teuluoedd i gael dechrau newydd a lleihau'r niwed y gall carcharu ei achosi i garcharorion, teuluoedd a chymunedau |

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan amodau Trwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0, ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint berthnasol.

Mae’r cyhoeddiad hwn ar gael yn https://www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni yn imb@justice.gov.uk.